# <u>Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL</u>

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2001 |
| Amser: | 9.00am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3 |

Teitl: Polisi Caffael y Cynulliad Cenedlaethol

**Y Cais a Wnaed**

1. Llunio adroddiad am y datblygiadau a fu o ran adolygu polisi caffael y Cynulliad yn dilyn y cyngor a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, a'r drafodaeth a ddilynodd hynny, yn EOC-01-01 ar 17 Ionawr 2001.

**Yr Ymateb**

2. Yn ei bapur EOC-01-01(p2), dywedodd y Cwnsler Cyffredinol na allai'r Cynulliad, gan nad yw'n asiantaeth orfodi, orfodi rhwymedigaethau statudol y contractwyr fel cyflogwyr. Dywedodd hefyd y gellid dadlau, yn ôl Wednesbury, ei bod yn afresymol mynnu bod gan bawb sy'n cyflwyno tendrau, gan gynnwys cwmnïau bach, bolisïau ffurfiol ar gyfle cyfartal. Aeth rhagddo i ddweud, '…Gan fod y Cynulliad o dan ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal i bawb, mae'n rhesymol felly y bydd yn dymuno sicrhau cyn belled ag y bo'n rhesymol fod y rhai y mae'n gwneud contractau gyda hwy mewn perthynas â'i fusnes a'i swyddogaethau yn mabwysiadu safonau tebyg.'

3. Wrth ystyried ffyrdd i fynd â'r maen i'r wal yn hyn o beth, mae'r Uned Gaffael wedi nodi mai cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb yw'r unig faen prawf lle y mae angen newid polisi caffael. Aeth yr Uned Gaffael rhagddi i nodi holl rwymedigaethau'r Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru a fyddai'n effeithio ar ei bolisi caffael, yn ogystal â nodi polisïau eraill a pholisïau cyfredol y Llywodraeth yr oedd caffael yn berthnasol iddynt. Byddai angen i'r polisi caffael adlewyrchu'r rhwymedigaethau hyn.

4. Nodwyd bod y prif feysydd eraill yr oedd angen mynd i'r afael â hwy fel a ganlyn:-

(a) Datblygu cynaliadwy – Yng nghynllun datblygu cynaliadwy y Cynulliad, 'Dysgu Byw'n Wahanol', dywedir y caiff ein polisi caffael ei adolygu i'r graddau y mae gofynion cyfreithiol yn caniatáu hynny, er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws ag amcanion datblygu cynaliadwy.

(b) Y Cynllun Iaith Gymraeg.

(c) Hyrwyddo'r defnydd o gyflenwyr / deunyddiau lleol.

(ch) Busnesau Bach a Chanolig – mae'r Gwasanaeth Busnesau Bach, asiantaeth o dan yr Adran Diwydiant a Masnach, wedi'i sefydlu i symbylu newid sylfaenol yn y ffordd y cynigir cymorth i fusnesau bach yn ogystal â newid y ffordd y mae'r Llywodraeth yn meddwl amdanynt ac yn ymddwyn tuag atynt.

(d) Iechyd a Diogelwch – yng nghyhoeddiad Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, *'Revitalising Health and Safety'*, nodwyd bod angen i bolisïau caffael adlewyrchu'r arferion gorau o ran iechyd a diogelwch. Er nad yw gorfodi hyn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, rhaid rhoi lle canolog i'r Cynulliad yn y gwaith hwn yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Comisiwn a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch. Mae'r swyddogion yn mynd â'r gwaith hwn yn ei flaen.

5. Un o'r ffactorau allweddol o safbwynt gallu'r Uned Gaffael i newid ei pholisi caffael yw'r ffaith bod gan y Cynulliad drefniadau / cynlluniau / polisïau sy'n amlinellu'i ymrwymiad i'r meysydd a nodir yn 2 (a) – (c) uchod. Er mwyn sicrhau bod y polisi caffael yn adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad yn hyn o beth, bydd angen i'r Cynulliad ei hun benderfynu ar y cynlluniau / trefniadau / polisïau, a rhoi sêl ei fendith arnynt.

6. Er mwyn sicrhau bod contractwyr yn ymwybodol o'r cynlluniau / trefniadau / polisïau hyn, ac wedi ymrwymo iddynt, mae'r Uned Gaffael wrthi ar hyn o bryd yn ystyried datblygu Cod Ymarfer Gwirfoddol y gwahoddir cyflenwyr i ymrwymo iddo. Gellir cymryd hyn i ystyriaeth wedyn naill ai wrth ddethol cwmnïau i'w gwahodd i gyflwyno tendrau neu yn y meini prawf gwerthuso ar gyfer dyfarnu contractau, yn ôl y gofyn.

7. Mae'r Uned Gaffael hefyd wrthi'n ail-ddrafftio dau lyfryn a gyhoeddwyd ganddi, sef, 'Gwerthu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: Canllaw Gwyrdd i Gyflenwyr' a 'Gwerthu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: Canllaw i Busnesau Bach a Chanolig', yn un llyfryn a fydd yn dwyn y teitl 'Ennill Busnes' ac a fydd yn rhoi manylion y trefniadau / cynlluniau / polisïau sydd gennym, yn amlinellu arferion da ar gyfer y meysydd a nodir yn 2 (a) – (c) ac yn hysbysu cwmnïau o'r Cod Ymarfer Gwirfoddol.

8. Mae tudalen yn cael ei datblygu ar y We ar gyfer yr Uned Gaffael, a bydd y tudalen hwn hefyd yn dwyn y teitl 'Ennill Busnes'. Yn ogystal â'r llyfryn a'r Cod Ymarfer Gwirfoddol, bydd cronfa ddata ar y tudalen ar y We lle y gall cyflenwyr gofrestru eu manylion, nodi manylion y contract y mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflwyno tendr ar ei gyfer, a chadarnhau eu bod wedi ymrwymo i'r Cod Gwirfoddol. Bydd modd mynd at y tudalen ar y We yn fewnol trwy'r Fewnrwyd felly bydd y bobl hynny sy'n ymwneud â sefydlu contractau yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddethol cyflenwyr i'w gwahodd i gyflwyno tendr os yw'n briodol gwneud hynny. Bydd cysylltiadau rhyngddo hefyd â phrif wefan y Cynulliad ar y rhyngrwyd lle y gall cyflenwyr gael manylion pellach trefniadau / cynlluniau / polisïau'r Cynulliad.

9. Caiff y gwaith o ddatblygu’r Cod Ymarfer Gwirfoddol ac ailddrafftio ‘Ennill Busnes’, a’r adolygiad o ddogfennau contract safonol y Cynulliad ei wneud â chymorth a chyngor Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol ac Eversheds (Cyfreithwyr) er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â’r gyfraith a bod y cysylltiadau perthnasol rhwng yr holl ddogfennau.

10. Caiff y polisi caffael ei newid i adlewyrchu dymuniad y Cynulliad sef, lle bynnag y bo modd, dim ond y cwmnïau hynny sydd wedi ymrwymo i’r Cod Ymarfer sy’n cael gwahoddiad i gyflwyno tendrau. Rhaid i’r Cynulliad sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yr UE, sy’n berthnasol i gontractau mwy na £93,896 ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau, a £3,611,395 ar gyfer gwaith. Os gwelir nad yw contractwyr yn cydymffurfio â’r Cod Ymarfer, caiff camau eu cymryd i sicrhau nad estynnir gwahoddiad iddynt gyflwyno tendr nes y gallant ddangos eu bod yn cydymffurfio.

11. Cam pellach yn y gwaith o hyrwyddo gwerthoedd y Cynulliad, fel y’u nodir yn y Cod Ymarfer, fydd ystyried sut y mae adlewyrchu’r gwerthoedd hyn yn y trefniadau sydd gan y Cynulliad mewn perthynas â grantiau.